

# Gwneuthurwr Modelau

## Cyflwyniad

Mae gwneuthurwyr modelau yn adeiladu modelau neu 'efelychiadau' i helpu dylunwyr i gael syniad gwell o olwg eu dyluniad, sut mae'n cyd-fynd â'i amgylchedd a pha mor ymarferol ydyw. Maent yn gweithio gydag amrywiaeth o ddeunyddiau fel pren, plastig a metel.

## Adwaenir hefyd fel

- Technegydd Creu Prototeip Buan



## Gweithgareddau Gwaith

Fel Gwneuthurwr Modelau, byddwch chi'n adeiladu modelau tri dimensiwn neu 'efelychiadau' i helpu dylunwyr i gael gwell syniad o sut bydd eu dyluniad yn edrych, sut mae'n cyd-fynd â'r hyn sydd o'i amgylch a pha mor ymarferol yw'r dyluniad. Mae angen i Ddylunwyr weld neu brofi eu dyluniad cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud i wario arian a threulio amser ar ei gynhyrchu.

Ar ôl siarad â'r Dylunydd, byddwch chi'n gweithio o ddarluniau dylunio, cynlluniau, ffotograffau neu graffeg cyfrifiadurol. Byddwch chi'n defnyddio defnyddiau fel pren, plastig, metel, plastr, papur neu gerdyn i greu modelau. Mae peiriannau ac offer llaw yn cael eu defnyddio i lunio'r deunyddiau.

Gall model gael ei uwchraddio neu ei israddio yn dibynnu beth mae'n ei gynrychioli a'i ddiben. Bydd trosffordd traffordd arfaethedig, er enghraifft, yn cael ei hisraddio'n sylweddol, ond bydd adeiledd moleciwlaidd newydd ei ddarganfod yn cael ei uwchraddio. Defnyddir modelau hefyd i greu effeithiau arbennig mewn ffilmiau, ar y teledu, yn y theatr ac mewn mathau penodol o arddangosfeydd. Mae materion amgylcheddol yn ffactor mawr iawn. Mae ymchwil carbon isel yn faes cyffrous i ymwneud ag ef! Gallwch chi helpu i wneud y byd yn lle glanach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol!

Gellir gwisgo dillad amddiffynnol, mygydau a menig wrth adeiladu'r modelau. Gall yr amgylchedd gwaith fod yn swm llyd.

Mae'n bosibl y bydd y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg o fantais i chi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

## Rhinweddau Personol a Sgiliau

I ddod yn Wneuthurwr Modelau, byddwch angen:

- sgiliau creadigol, technegol ac ymarferol
- gallu gweld gwrthrychau ar ffurf tri dimensiwn
- amynedd, cywirdeb, a'r gallu i gyrraedd terfynau amser prosiectau
- sgiliau cyfathrebu da
- sgiliau datrys problemau
- dealltwriaeth o'r deunyddiau gwahanol y gallech eu defnyddio
- gwybodaeth am feddalwedd yn ymwneud â dylunio
- gweithio'n dda ar eich pen eich hun a chydag eraill

Bydd angen sgiliau busnes a marchnata ar Wneuthurwyr Modelau hunangyflogedig.

## Cyflog a Chyfleoedd

### Cyflog

Mae'r cyfraddau cyflog a roddir isod yn rhai bras.

- Cyflog cychwynnol: £19,000 - £20,500
- Gyda phrofiad: £22,000 - £26,500

- Mae Uwch Wneuthurwyr Modelau yn ennill £27,500

## Oriau gwaith

Fel arfer, mae Gwneuthurwyr Modelau yn gweithio 39 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gall oriau gwaith Gwneuthurwyr Modelau hunangyflogedig fod yn afreolaidd, yn dibynnu ar faint o waith sydd ganddynt. Efallai y bydd angen gorffen yn hwyr a gweithio ar benwythnosau o bryd i'w gilydd, yn enwedig wrth i derfynau amser agosáu.

## Ble gallwn i weithio?

Mae cyflogwyr yn gwmnïau mewn:

- peirianeg sifil
- pensaernïaeth
- ffilm a theledu
- adeiladu llongau
- cynhyrchu ceir modur
- cynllunio trefol

Mae cyfleoedd i Wneuthurwyr Model weithio gyda chyflogwyr mewn trefi a dinasoedd ledled y DU.

## Hunangyflogaeth

Er bod rhai Gwneuthurwyr Modelau yn gweithio i gyflogwr, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn waith llawrydd hunangyflogedig, sy'n golygu symud o brosiect i brosiect.

## Ble mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu?

Mae swyddi'n cael eu hysbysebu mewn papurau newydd lleol/cenedlaethol, ar wefannau recriwtio a chyflogwyr, ac ar Universal Jobmatch ([www.gov.uk/jobsearch](http://www.gov.uk/jobsearch)). Mae'n syniad da adeiladu rhwydwaith o gysylltiadau perthnasol, gan nad yw pob gwaith gwneud modelau yn cael ei hysbysebu. Gallai fod yn ddefnyddiol gwneud ceisiadau am swyddi hapfasnachol i gyflogwyr posibl. Mae gwefannau cyfryngau cymdeithasol, fel LinkedIn, Twitter neu Facebook, yn ffordd dda o rwydweithio, dod o hyd i swyddi gwag a chysylltu â chyflogwyr posibl. Gwnwch yn siwr bod eich proffil yn eich cyflwyno mewn modd proffesiynol a fydd yn apelio at gyflogwyr posibl. Cymerwch olwg ar ein Herthygl Gwybodaeth Gyffredinol 'Dod o hyd i waith ar-lein'.

## Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

**Llwybrau Mynediad** Mae Prentisiaeth Lefel Uwch yn fan cychwyn da. Efallai y gallech chi astudio ar gyfer NVQ fel rhan o'r brentisiaeth. Llwybr cyffredin i mewn i'r yrfa hon yw ar ôl gradd. Mae gradd gwneud modelau ar gael ym Mhrifysgol y Celfyddydau yn Bournemouth. Gallai cyrsiau dylunio tri dimensiwn cyffredinol hefyd gynnwys elfennau o hyfforddiant mewn gwneud modelau. Mae rhai pobl yn cael eu derbyn i gyrsiau gradd trwy gwrs sylfaen, HND, HNC neu radd sylfaen. Efallai na fydd angen i chi gael cymhwyster addysg uwchi fynd i mewn i'r yrfa hon. Bydd sgiliau ymarferol a enillwyd mewn meysydd fel gwaith pren, electroneg a pheirianeg yn ddefnyddiol. **Dilyniant** Gyda phrofiad, mae rhai Gwneuthurwyr Modelau yn symud i swyddi goruchwylio. Mae llawer yn dod yn hunangyflogedig. **Profiad Gwaith** Mae profiad blaenorol o weithio ym maes pensaernïaeth, cynllunio trefi neu beirianeg sifil yn ddefnyddiol ar gyfer yr yrfa hon.

## Cymwysterau

I gael lle ar Brentisiaeth

Lefel Uwch, fel arfer bydd arnoch angen 5 TGAU gradd C/4 neu uwch, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, neu bydd angen eich bod wedi cwblhau Prentisiaeth Lefel Ganolradd.

I gael lle ar gwrs gradd perthnasol, bydd arnoch angen:

- 2 Safon Uwch neu ragor, neu gymhwyster cywerth
- 4/5 TGAU gradd C/4 neu uwch
- llwyddiant mewn Saesneg a mathemateg
- llwyddiant mewn dylunio a thechnoleg

Ymhlith dewisiadau yn lle Safon Uwch mae:

- cymhwyster BTEC lefel 3 mewn modelu clai modurol
- tystysgrif neu ddiploma lefel 3 City and Guilds mewn dylunio a chrefft
- Prentisiaeth Lefel Uwch - a fyddai o bosibl yn arwain at NVQ lefel 3
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol.

Mae llawer o gymwysterau eraill hefyd yn cael eu derbyn felly gwiriwch wefan y coleg/prifysgol am fwy o fanylion.

Y gofynion mynediad arferol ar gyfer cwrs HND, HNC a chwrs Sylfaen perthnasol yw:

- 1/2 Safon Uwch neu gywerth, gan gynnwys Safon Uwch mewn celf neu bwnc sy'n seiliedig ar gelf
- TGAU ar radd C/4 neu uwch mewn 4/5 pwnc

Mae rhai cyrsiau yn gofyn eich bod wedi llwyddo mewn Saesneg. Bydd llwyddo yn y pwnc dylunio a thechnoleg (dylunio cynnyrch) yn ddefnyddiol.

Mae rhai prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gywerth ag 1 Safon Uwch.

## Cyfleoedd i Oedolion

### Terfynau Oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad bennu terfyn oedran sy'n cyfyngu ar allu ymgeiswyr i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant, oni allan nhw ddangos fod angen go iawn i bennu'r terfynau hyn.

### Sgiliau/Profiad

Mae gwybodaeth o'r diwydiant ehangach yr ydych yn bwriadu gweithio ynddo yn ddefnyddiol, er enghraifft, pensaerniaeth, cynllunio trefol neu beirianeg sifil.

Fel arfer, disgwylir i ymgeiswyr ddangos portffolio o waith sy'n dangos gallu creadigol.

### Cyrsiau

Fel arfer, bydd prifysgolion a cholegau addysg uwch (AU) yn ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sydd ddim yn cyflawni eu gofynion mynediad arferol, yn enwedig y sawl sydd â phrofiad o grefftau, dylunio neu dechnegol. Dylech ddarllen polisi mynediad prifysgolion a cholegau AU unigol.

## Gwybodaeth Bellach

### Cysylltiadau

- **Creative Skillset**  
Skills for the creative industries  
E-bost [info@creativeskillset.org](mailto:info@creativeskillset.org)  
Gwefan [www.creativeskillset.org](http://www.creativeskillset.org)
- **Creative Choices**  
Publisher: Creative & Cultural Skills  
E-bost [info@creative-choices.co.uk](mailto:info@creative-choices.co.uk)  
Gwefan [www.creative-choices.co.uk](http://www.creative-choices.co.uk)
- **Creative & Cultural Skills**  
Skills for craft, cultural heritage, design, literature, music, performing arts and visual arts  
E-bost [london@ccskills.org.uk](mailto:london@ccskills.org.uk)  
Gwefan [ccskills.org.uk](http://ccskills.org.uk)

- **Proskills UK**  
Skills for process and manufacturing industries  
Cyfeiriad Centurion Court, 85b Park Drive, Milton Park, Abingdon, Oxfordshire OX14 4RY  
Ffôn 01235 833844  
E-bost [info@proskills.co.uk](mailto:info@proskills.co.uk)  
Gwefan [www.proskills.co.uk](http://www.proskills.co.uk)
- **Prospect4u**  
Careers in manufacturing  
Gwefan [www.prospect4u.co.uk](http://www.prospect4u.co.uk)
- **Crafts Council**  
Cyfeiriad 44a Pentonville Road, Islington, London N1 9BY  
Ffôn 020 7806 2500  
E-bost [reception@craftscouncil.org.uk](mailto:reception@craftscouncil.org.uk)  
Gwefan [www.craftscouncil.org.uk](http://www.craftscouncil.org.uk)
- **Arts University Bournemouth (AUB)**  
Cyfeiriad Wallisdown, Poole, Dorset BH12 5HH  
Ffôn 01202 533011  
E-bost [general@aub.ac.uk](mailto:general@aub.ac.uk)  
Gwefan [aub.ac.uk](http://aub.ac.uk)
- **Careers Wales - Welsh Apprenticeships**  
Ffôn 0800 028 4844  
Gwefan [ams.careerswales.com/](http://ams.careerswales.com/)

## Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Darlunydd Meddygol
- Cynorthwy-ydd Dylunio
- Dylunydd Ffasiwn
- Dylunydd Graffeg
- Gweithiwr Celf
- Engrafwr Metel
- Gweithiwr Marsiandiaeth Weledol
- Darlunydd Masnachol
- Llythrennwr/Gwneuthurwr Arwyddion
- Dylunydd Cerameg
- Dylunydd Esgidiau
- Dylunydd Dodrefn
- Dylunydd Cynnyrch
- Dylunydd Cerbydau
- Dylunydd Mewnol
- Dylunydd Gemwaith
- Dylunydd Pecynnu
- Dylunydd Tecstilau
- Dylunydd Gwisgoed
- Dylunydd Theatr
- Technegydd Offerynnau Cerdd
- Ymchwilydd Lluniau
- Darlunydd Technegol/Gwyddonol
- Fframiwr Lluniau
- Dylunydd
- Darlunydd
- Artist
- Artist CGI
- Artist Effeithiau Gweledol (VFX)
- Nostalgydd